ADRODDIAD YMGYNGHORI FFURFIOL

Cynnig i ailddynodi Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir yn Wirfoddol

Rhagfyr 2019

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille, ieithoedd eraill ac ar bapur ar gais.

CYNNWYS

A. CRYNODEB GWEITHREDOL 4

B. AMLINELLIAD O'R CYNNIG 4

2. Cyflwyniad 4
3. Beth sy'n cael ei gynnig? 4
4. Y Cynnig 5

C. TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD 5

5. Cyfnod Ymgynghori 5
6. Dogfennau Ymgynghori 5
7. Hysbysiad ynghylch yr Ymgynghoriad 6
8. Digwyddiadau Ymgynghori 6
9. Cyhoeddi Adroddiad 7

D. YMATEBION YMGYNGHORI 8

10. Canlyniadau'r Ffurflen Ymateb 8
11. Ymateb Estyn 10
12. Barn Plant a Phobl Ifanc 10
13. Crynodeb o Ddigwyddiadau'r Cyngor Ysgol 11

E. Y CAMAU NESAF 12

14. Penderfyniadau Posibl 12
15. Gwrthod y cynnig 13
16. Cymeradwyo'r Cynnig gydag Addasiadau 13
17. Cymeradwyo'r Cynnig 13
18. Cyfnod Gwrthwynebu 13
19. Gweithredu 14

F. Atodiadau 14

Atodiad A 14

20. Rhestr o Ymgyngoreion 14

Atodiad B 14

21. Gohebiaeth a Gafwyd 14

Atodiad C 14

22. Ymateb Estyn 14

Atodiad D 14

23. Ymatebion Plant a Phobl Ifanc 14

Atodiad E 14

24. Papurau Pleidleisio'r Cyngor Ysgol 14

A. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i ailddynodi Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm.

1.2. Cyflwynodd cyfanswm o 36 o bobl ffurflen ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori, gyda 35 (97.22%) o ymatebwyr o blaid y cynnig ac 1 (2.78%) yn ei wrthwynebu.

1.3. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn rhiant neu'n ofalwr i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm.

1.4. Cyflwynodd plant a phobl ifanc 6 ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, ac fe gafwyd 5 llythyr hefyd oddi wrth bartïon â buddiant.

B. AMLINELLIAD O'R CYNNIG

2. Cyflwyniad

2.1. Gofynnodd Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn allan fel "y Cyngor") am safbwyntiau partïon â buddiant ynghylch y cynnig i ailddynodi Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir yn Wirfoddol, o 1 Medi 2020.

2.2. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn cyfnod ymgynghori ffurfiol a agorwyd ar **26 Medi 2019** ac a ddaeth i ben ar **11 Tachwedd 2019.**

2.3. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio, fel y nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (y cyfeirir ato o hyn allan fel "y Cod").

2.4. Bydd yr adroddiad hwn:

- Yn rhoi crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion.
- Yn rhoi eglurhad er mwyn ymateb i'r rhain.
- Yn nodi barn Estyn (fel y darparwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad) ynghylch rhinweddau cyffredinol y cynnig.

2.5. Dylai penderfynwyr ystyried cynnwys y ddogfen hon cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.

3. Beth sy'n cael ei gynnig?

3.1. Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm a swyddogion addysg Esgobaeth Anglicanaidd yr Eglwys yng Nghymru (cyfeiriwyd atynt yn y ddogfen hon fel yr Esgobaeth) ers 2018 wedi bod yn cynnal trafodaethau i gryfhau’r berthynas bresennol rhwng yr ysgol a’r Eglwys Anglicanaidd, gydag uchelgais tymor hir i ddilyn trywydd ffedereiddio gydag ysgol leol o’r un dynodiad. Nid yw’n bosibl dilyn trywydd ffedereiddio ysgolion gyda dynodiadau gwahanol.

3.2. Nid yw'n bosibl newid categori Ysgol Gynradd Licswm yn syml o ysgol gymunedol i Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir; y rheswm am hyn yw mai un o nodweddion ysgol gymunedol yw na cheir unrhyw ddylanwad arni gan grwpiau crefyddol. Er mwyn cyflawni'r newid, byddai'n rhaid i Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm gael ei chau'n weinyddol ac agor Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir newydd.

3.3. Mae'r dewis hwn wedi'i drafod rhwng Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm, yr Esgobaeth a Chyngor Sir y Fflint. Bydd y penderfyniad ynglŷn â symud ymlaen gyda'r cynnig yn cael ei wneud gan Gabinet o Aelodau Etholedig Cyngor Sir Y Fflint a Bwrdd Addysg Statudol Esgobaeth Llanelwy. Cabinet Cyngor Sir y Fflint fydd yn penderfynu'n derfynol a ddylid gweithredu'r cynnig ai peidio.

4. Y Cynnig

4.1. Dyma'r cynnig dan ystyriaeth:

Cam Un: Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cau Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm ar 31 Awst 2020

Cam Dau: Bydd Esgobaeth Anglicanaidd yr Eglwys yng Nghymru yn agor Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru newydd a elwir yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Licswm ar 1 Medi 2020, ar safle presennol Ysgol Licswm. Bydd hyn wedyn yn caniatáu i'r Corff Llywodraethu fynd ar drywydd Ffedereiddio gydag ysgol gyfagos o'r un dynodiad.

C. TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD

5. Cyfnod Ymgynghori

5.1. Nodir yn y Cod "*Mae'n rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol, ac mae'n rhaid i ymgyngoreion gael 42 diwrnod o leiaf i ymateb, ac mae'n rhaid i 20 o'r diwrnodiau hynny o leiaf fod yn ddiwrnodiau ysgol*"[1]

5.2. Agorodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ddydd Iau 26 Medi 2019, a oedd yn ddiwrnod ysgol, a daeth y cyfnod hwnnw i ben ddydd Llun 11 Tachwedd 2019. Rhoddodd y cyfnod hwn 47 o ddiwrnodiau i ymgyngoreion ymateb, gyda 27 o'r diwrnodiau hynny yn ddiwrnodiau ysgol.

6. Dogfennau Ymgynghori

6.1. Cafodd y dogfennau a ganlyn eu cyhoeddi, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar wefan Cyngor Sir y Fflint ar 26 Medi 2019:

[1] (School Organisation Code, 2018)

- Dogfen Ymgynghori Ffurfiol;
- Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc;
- Asesiad Effaith ar y Gymuned;
- Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth;
- Asesiad Effaith Integredig; a
- Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad Ffurfiol

6.2. Ar y diwrnod cyhoeddi, darparwyd naill ai copi caled neu ddolen gyswllt electronig i randdeiliaid i'w hysbysu bod y dogfennau ymgynghori ar gael. Gellir gweld rhestr lawn o'r derbynwyr yn **Atodiad A**.

6.3. Mae'r holl ddogfennau uchod yn dal ar gael (ar ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon) ar wefan y Cyngor a gellir eu cyrraedd drwy'r ddolen gyswllt ganlynol:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Lixwm-Community-Primary-School.aspx

6.4. Dyluniwyd y Ddogfen Ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc yn benodol fel bo modd i blant ysgol gynradd ddeall y cynnig yn rhwydd a rhoi cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

7. Hysbysiad ynghylch yr Ymgynghoriad

7.1. Cyn cyhoeddi'r dogfennau ymgynghori, cynhaliwyd y cyfarfodydd a ganlyn i amlinellu eu cynnwys ac esbonio'r broses ymgynghori:

- Cyfarfod ar 24 Medi 2019 yn Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm â'r Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm, CH8 8NF.

7.2. Ar 26 Medi 2019, anfonwyd copïau caled o'r dogfennau ymgynghori ffurfiol drwy law i Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm ac i'r saith ysgol y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt.

7.3. Yn ychwanegol at y copïau caled a anfonwyd ar 26 Medi 2019, darparwyr blwch post i Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm hefyd, i'w gadw yn yr ysgol honno drwy gydol y cyfnod ymgynghori, fel bo modd i randdeiliaid gyflwyno eu hymateb ar gopi caled.

8. Digwyddiadau Ymgynghori

8.1. Cynhaliodd cynrychiolwyr y Cyngor ddigwyddiadau ymgynghori â chyngor ysgol Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm a chynghorau ysgol y saith ysgol y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt. Dyma'r sesiynau a gynhaliwyd:

- Dydd Mercher 09 Hydref 2019 yn Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor;
- Dydd Iau 10 Hydref 2019 yn Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm;
- Dydd Llun 14 Hydref 2019 yn Ysgol y Foel, Cilcain;

- Dydd Llun 14 Hydref 2019 yn Ysgol yr Esgob - Ysgol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir yn Wirfoddol, Caerwys;
- Dydd Mercher 16 Hydref 2019 yn Ysgol Maes-y-Felin, Treffynnon;
- Dydd Mawrth 22 Hydref 2019 yn Ysgol Bro Carmel;
- Dydd Llun 04 Tachwedd 2019 yn Ysgol Gynradd Nannerch - Ysgol yr Eglwys yng Nghymru a Reolir yn Wirfoddol a
- Dydd Mawrth 05 Tachwedd 2019 yn Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd.

9. Cyhoeddi Adroddiad

9.1. Mae'r Cod yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi'r adroddiad hwn ar ei wefan bythefnos o leiaf cyn cyhoeddi hysbysiad statudol:

- gan grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion;
- gan ymateb i'r rhain drwy roi eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau dros hynny;
- gan nodi ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; a
- chan ymateb i ymateb Estyn drwy roi eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau dros hynny.

9.2. Rhagwelir y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2019 cyn iddo gael ei ystyried gan Gabinet y Cyngor ar 17 Rhagfyr 2019.

9.3. Ar y diwrnod cyhoeddi, bydd y rhanddeiliaid a ganlyn yn cael gwybod bod yr adroddiad hwn ar gael:

- Disgyblion, rhieni (a darpar rieni lle bo modd), gofalwyr a gwarcheidwaid, ac aelodau staff mewn ysgolion a drafodir yn y cynigion; ac
- Ymgyngoreion a oedd wedi gofyn am gael gwybod;
- Rhanddeiliaid allweddol

9.4. Cafodd y grŵp sy'n cynnwys rhieni ac aelodau staff a nodir uchod wybod drwy eu hysgolion unigol. Anfonwyd e-bost yn cynnwys dolen i'r adroddiad hwn ar wefan y Cyngor i'r ysgolion hyn, a gofynnwyd iddynt anfon y ddolen ymlaen i randdeiliaid ar yr un diwrnod.

9.5. Bydd e-bost sy'n cynnwys dolen gyswllt i'r adroddiad hwn ar wefan y Cyngor yn cael ei anfon yn uniongyrchol at ymgyngoreion a ofynnodd am gael gwybod pan fyddai'r adroddiad ar gael.

9.6. Bydd y rhanddeiliaid (gweler **Atodiad A**) a gafodd wybod am y cyhoeddiad drwy'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol hefyd yn derbyn e-bost sy'n cynnwys dolen gyswllt i'w hysbysu bod yr adroddiad Ymgynghori ar gael.

D. YMATEBION YMGYNGHORI

9.7. Lluniwyd ffurflen ymateb i ymgynghoriad ffurfiol er mwyn galluogi rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad a mynegi eu barn ynghylch y cynnig. Roedd y ffurflen hon ar gael ar ffurf copi caled yn rhan o'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol, yn electronig ar y dudalen Moderneiddio Ysgolion ar wefan y Cyngor a thrwy'r platfform ar-lein, Survey Monkey.

9.8. Roedd y Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol hefyd yn cynnwys cyfeiriadau e-bost a phost y gallai rhanddeiliaid anfon eu sylwadau iddynt yn lle defnyddio'r ffurflen.

9.9. Ffigur 1 yn dangos sut y cyflwynwyd ymatebion i'r ymgynghoriad a faint o ymatebion a ddaeth i law:



Ffigur 1: Y Mathau o Ymatebion a Gafwyd

10. Canlyniadau'r Ffurflen Ymateb

10.1. Ffigur 2 yn dangos canlyniadau'r ffurflen ymateb, lle nododd pobl a oeddent o blaid y cais neu'n ei wrthwynebu.



Ffigur 2: Canlyniadau Ymgynghori'r Ffurflen Ymateb

10.2. Ffigur 3 yn dangos perthynas y bobl hynny a gyflwynodd ffurflen ymateb ag Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm:



Ffigur 3: Perthynas Ymatebwyr ag Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm

10.3. Ffigur 4 canlynol yn dangos y grwpiau o bobl sydd wedi cyflwyno gohebiaeth ynghylch y cynnig:



Ffigur 4: Grwpiau o Bobl a Gyflwynodd Ohebiaeth

10.4. Ni chodwyd unrhyw faterion drwy ohebiaeth, ac mae copïau wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

11. Ymateb Estyn

11.1. Mae Tabl 1 dangos crynodeb o'r sylwadau a wnaed gan Estyn yn gysylltiedig â'r cynnig ac ymateb gan y Cyngor er mwyn ymdrin ag unrhyw bwyntiau a wnaed. Gellir gweld ymateb llawn Estyn yn Atodiad C.

Rhif	**Sylw Estyn**	**Ymateb**
1	Mae Estyn o'r farn y bydd y trefniant newydd o leiaf yn cynnal safonau a deilliannau disgyblion yn yr ardal.	Cytunwyd

Tabl 1: Sylwadau Estyn

12. Barn Plant a Phobl Ifanc

12.1. Ni chodwyd unrhyw faterion yn yr arolygon a gyflwynwyd gan blant, ac mae copïau wedi'u cynnwys yn **Atodiad** .

13. Crynodeb o Ddigwyddiadau'r Cyngor Ysgol

13.1. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori â Chynghorau Ysgol Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm, yn ogystal â chynghorau ysgol y saith ysgol gynradd gymunedol y gallai'r cynnig effeithio arnynt.

13.2. Pwrpas y cyfarfodydd hyn oedd esbonio'r cynnig mewn modd sy'n gyfeillgar â phlant i gynrychiolwyr pob ysgol fel bo modd iddynt fynegi eu barn.

13.3. Roedd Aelodau o'r Tîm Moderneiddio Ysgolion wrth law i ateb unrhyw gwestiynau technegol, ac roedd aelodau o staff yr ysgol hefyd yn bresennol, ond gofynnwyd iddynt beidio cymryd rhan.

13.4. Dyma oedd trefn y digwyddiadau:



Ffigur 5: Trefn Sesiwn Cyngor Ysgol

13.5. Mae Ffigur 6 yn dangos canlyniadau'r pleidleisiau gan gynghorau ysgol, lle gofynnwyd i blant lenwi papur pleidleisio ar eu pen eu hunain fel nad oedd unrhyw ddylanwad arnynt:



Ffigur 6: Pleidleisiau'r Cyngor Ysgol

13.6. Mae'r papurau pleidlais o bleidleisiau pob cyngor ysgol wedi'u cynnwys yn llawn yn **Atodiad** .

E. Y CAMAU NESAF

13.7. Ffigur 7yn dangos y llinell amser a ragwelir ar gyfer y cynnig.



Ffigur 7: Llinell Amser y Cynnig

14. Penderfyniadau Posibl

14.1. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn bydd ei ganfyddiadau'n cael eu hystyried gan Gabinet y Cyngor ar **17 Rhagfyr 2019**. Bydd y Cabinet yn penderfynu naill ai:

- Gwrthod y cynnig
- Cymeradwyo'r cynnig gydag addasiadau; neu
- Gymeradwyo'r cynnig.

15. Gwrthod y cynnig

15.1. Os bydd y Cyngor yn penderfynu gwrthod y cynnig, bydd y broses yn dod i ben a'r ysgol yn Licswm yn parhau i fod yn Ysgol Gynradd Gymunedol.

16. Cymeradwyo'r Cynnig gydag Addasiadau

16.1. Gall y Cyngor benderfynu cymeradwyo'r cynigion ond gydag addasiadau. Ni chaiff yr addasiadau hyn ond cynnwys newidiadau i faterion yn gysylltiedig â gweithredu, fel newid niferoedd derbyn, neu'r amseriad wrth weithredu.

16.2. Ni chaiff y Cyngor wneud unrhyw addasiadau a fyddai, i bob pwrpas, yn cyflwyno cynnig newydd i ddisodli'r cynnig a gyhoeddwyd.

16.3. Cyn gwneud unrhyw addasiadau, bydd yn rhaid i'r Cyngor ymgynghori â'r cynigydd i ddechrau, a sicrhau ei fod yn cydsynio i'r addasiad. Bydd yn rhaid iddo hefyd sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru. Os na ellir sicrhau cydsyniad, a bod yr awdurdod lleol o'r farn nad yw'r cynigion yn dderbyniol ar y ffurf y cawsant eu cyhoeddi, bydd iddo wrthod y cynigion.

16.4. Bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ymgynghori â chorff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn gysylltiedig â hi (lle nad yw'r corff llywodraethu yn gweithredu fel y cynigydd).

16.5. Gellir cymeradwyo'n amodol ar sicrhau digwyddiad penodedig erbyn dyddiad penodedig.

17. Cymeradwyo'r Cynnig

17.1. Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig bydd yn rhaid iddo gyhoeddi hynny drwy roi Hysbysiad Statudol

17.2. Mae'n rhaid cyhoeddi Cynigion sy'n destun Hysbysiad Statudol cyn pen 26 wythnos ar ôl i'r cyfnod a ganiateir er mwyn ymateb i ymgynghoriad ddod i ben. Oni wneir hynny, bydd y cynigion yn colli eu grym a bydd yn rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori newydd i'w hadfywio.

17.3. O ganlyniad i ddyddiad cau'r cyfnod ymgynghori, **mae'n rhaid cyhoeddi Cynnig sy'n destun Hysbysiad Statudol erbyn 11 Mai 2020**.

17.4. Os caiff y cynnig yr ymgynghorir yn ei gylch ei gymeradwyo, rhagwelir y bydd y Cynnig sy'n Destun Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi yn nhymor y gaeaf / gwanwyn 2020.

18. Cyfnod Gwrthwynebu

18.1. Ar ôl cyhoeddi Cynnig sy'n destun Hysbysiad Statudol, bydd Cyfnod Gwrthwynebu yn dechrau pan fydd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig ynghylch trefniadaeth ysgolion yn cael cyfle i wneud hynny.

18.2. I'w hystyried yn wrthwynebiadau statudol, mae'n **rhaid** i wrthwynebiadau gael eu cyflwyno mewn ysgrifen neu drwy e-bost, a chael eu hanfon i'r Cyngor cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig ("y cyfnod gwrthwynebu").

18.3. Ar ôl i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben, bydd Adroddiad ar Wrthwynebiadau yn cael ei lunio a fydd yn rhoi crynodeb o bob gwrthwynebiad statudol a ddaeth i law.

18.4. Bydd yr Adroddiad ar Wrthwynebiadau yn cael ei ddefnyddio'n sail ar gyfer adroddiad a gyflwynir gerbron Cabinet Cyngor Sir y Fflint a fydd yn penderfynu'n derfynol a ddylid:

- Gwrthod y cynnig
- Cymeradwyo'r cynnig gydag addasiadau; neu
- Gymeradwyo'r cynnig.

18.5. Cyhoeddir yr Adroddiad ar Wrthwynebiadau gan y Cyngor cyn pen 7 diwrnod, gan ddechrau ar ddiwrnod ei benderfyniad.

19. Gweithredu

19.1. Os cymeradwyir y cynnig, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol, y llywodraethwyr, yr Esgobaeth a'r staff er mwyn sicrhau bod y broses o newid yr ysgol yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru yn llyfn;

19.2. Bydd yr ysgol gymunedol yn cael ei chau'n weinyddol ar 31 Awst 2020, ac ysgol newydd yr Eglwys yng Nghymru yn cael ei hagor ar 01 Medi 2020.

F. Atodiadau

Atodiad A

20. Rhestr o Ymgyngoreion

Atodiad B

21. Gohebiaeth a Gafwyd

Atodiad C

22. Ymateb Estyn

Atodiad D

23. Ymatebion Plant a Phobl Ifanc

Atodiad E

24. Papurau Pleidleisio'r Cyngor Ysgol